

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
7:30YH 28^{AIN} EBRILL 2021
(CYFARFOD DRWY GYSWLLT GWEFAN 'ZOOM' OHERWYDD COVID-19)

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

1.2 Presennol: Elen H Edwards (EHE), Ann Vaughan (AV), Diane Roberts (DR), R. Emlyn Williams (REW), Garffild Ll Lewis (GLL), Gwyn Williams (GW), Gwynfor Davies (GD) ac Einir Williams (EW)

1.3 Ymddiheuriadau: Mark Davies (MD)

1.4 Absennol: Gwydion Jones (GJ)

2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

3 COFNODION I'W GWIRO 31^{AIN} MAWRTH 2020

Cynnigwyd yn gywir gan AV ac eilwyd gan EHE.

4 MATERION YN CODI

CR am ddilyn fyny ar faterion lleol drafodwyd fis diwethaf a chopio GLL yn yr ohebiaeth. Trafodwyd fod y fainc wedi cael ei symud bellach, pawb yn gytun ei bod yn edrych yn dda. Cododd CR y mater o'r ddau lwmp sydd ar ôl yn y lleoliad ger porth yr Eglwys, cynnigiodd CR safle cadw beics yno. Pawb yn gytun fod hyn yn syniad da. CR am wneud ymholiadau ynglyn â hyn. AV yn codi fod Gwenda Cooper wedi son fod y tir yn perthyn i'r Eglwys. CR am gysylltu efo'r Eglwys i ofyn mwy am hyn. Trafodaeth am hyn gan nad oedd aelodau eraill y pwyllgor yn ymwybodol o hyn ac wedi tybio fod y palmant yma yn perthyn i'r Cyngor Sir.

DR yn dal i aros am y tafleni ynglyn â baw ci gan y Cyngor Sir. Wedi gyrru i ofyn amdanynt ddwywaith bellach, am yrru'r ebost diwethaf ymlaen i GLL ddilyn y mater i fyny efo'r Cyngor.

5 CEISIADAU CYNLLUNIO

Dim ceisiadau wedi dod i law.

6 MATERION ARIANNOL

6.1 Awdit: DR yn gofyn wrth GD am y gwaith papur a mantoleni banc. Wedi cysylltu efo'r cyfrifydd yn barod i baratoi a nôl ffeil llynedd yfory i gario ymlaen efo hwn. EHE yn nodi fod angen bod yn drefnus i gael popeth yn barod cyn diwedd Mai. Iona Edwards, cyfrifydd wedi cadarnhau ei bod yn barod i ymgymryd â'r gwaith eto eleni. GD am gasglu'r dogfennau i gyd at eu gilydd a gwneud yn siwr fod DR yn eu cael cyn gynted a phosibl.

GD yn holi DR os oes newydd efo'r TAW, DR wedi cael cadarnhad gan y cyfrifydd fod hyn am gael ei wneud yn fuan iawn.

7 MATERION Y CYNGOR

7.1 CR wedi derbyn sylw yn ddiweddar am lwybr rhif 50 o Pen y Bryn i lawr am Langernyw. Dipyn o ddefnydd ar y llwybr, tir wedi dirywio ger yr afon. Kevin Roberts wedi cael golwg ar y gwaith sydd angen ei wneud i wella. Wedi derbyn amcan bris i gynnwys nwyddau a llafur £382.80 yn cynnwys TAW. Gellir hawlio'r arian yma yn ôl gan y Cyngor Sir. AV yn cynnig cario ymlaen efo'r gwaith yma, eilio gan GW. GD yn nodi fod angen gofyn am ganiatad gan y Cyngor Sir yn gyntaf.

REW yn gofyn os oes cyswllt wedi bod ynglyn â'r fainc yn mynwent y Garnedd. CR yn aros i glywed gan Kevin Roberts efo amcan bris am y gwaith.

EW yn cyraedd y cyfarfod

8 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Sefyllfa Covid-19 wedi gwella yn y sir erbyn hyn, ffigyrau wedi dod i lawr yn sylweddol dros y mis diwethaf.

Yn lleol, gwaith ar y bont ger Hafodunos wedi cychwyn yn ddiweddar, ffordd ar gau ar hyn o bryd ond mae'r gwaith yn angenrheidiol.

EHE yn nodi fod ebost wedi dod i gyfrif y Cyngor fel rhybydd am waith ar y bont ger Hafodunos i ymestyn y gwaith tan 18^{fed} Mai.

Cwynion ynglyn a llinellau melyn tu allan i'r siop yn Llangernyw yn ddiweddar, wedi dod i gytundeb cael llinellau ar y gornel yn unig. Symud ymlaen efo'r gwaith yn ffurfiol yn fuan.

GD wedi gweld arwydd fod y ffordd ger y Graig yn cael ei gau rhwng 4^{ydd} -7^{fed} Mai. Byddai hyn yn atal pobl i ddod i bledleisio yn y pentref ar y 6^{ed} Mai. GLL am ddilyn hyn i fyny bore yfory oherwydd anhwylystod i'r trigolion lleol ayyb gan fod ffordd Hafodunos eisioes ar gau. REW wedi gweld ebost heddiw yn rhybuddio fod y ffordd i Llanrwst ar gau am gyfnod estynedig. GLL yn esbonio fod angen gwneud hyn yn statudol a bydd gwaith ailwynebu yn digwydd o fewn y cyfnod.

9 BILIAU

9.1 Enlli: £217.84 (i gynnwys cyflog yn dilyn y cyfarfod diwethaf ac i gynnwys y £90 am gyfieithu yn y ddau gyfarfod diwethaf fel gytunwyd yn y cyfarfod diwethaf). Cytunwyd i dalu.

9.2 Kevin Roberts am glirio'r gangen ym mynwent Gwytherin £240. Symud y fainc solar £400. £768 cyfanswm efo TAW. Cytunwyd i dalu.

10 MATERION LLEOL

GD wedi gweld fod y banc yn Llandudno wedi cael tân yn ddiweddar ac yn edrych yn debyg y bydd y banc ar gau am y dyfodol agos. Cyngor Tref Llanrwst wedi gyrru llythyr i'r banc yn cwyno fod stopio'r gwasanaeth cownter am fod yn ergyd fawr i drigolion a busnesau'r fro. REW yn cynnig fod y Cyngor Cymuned yn ysgrifennu yn ategu hyn ar ran Cymuned Bro Cernyw. Dim sôn am wasanaeth symudol chwaith.

REW wedi sylwi ar ebost ynglyn â'r Gronfa Gymunedol fod cyfarfod dydd Gwener. EHE yn nodi fod angen gwario'r arian yma yn sydyn oherwydd ei fod wedi dod gan Lywodraeth Prydain. Ffenest gais yn cau 14^{eg} Mai.

Llythyr gan Heddlu Dyfed Powys wedi dod i law ynglyn â thwylo, cytunwyd fod nodyn am hyn werth ei roi yn yr hysbysfyrdau yn y tri pentref.

AV wedi cael gwybod fod pla o lygod mawr yn Glan Collen. Cartrefi Conwy wedi bod yno yn delio.

Canmol pwy bynnag sydd wedi plannu cennig pedr ger Fron Deg yn harddu.

Gofyn os fydd y Cyfarfod Blynyddol mis nesaf. Rheolau yn llacio fis nesaf felly efallai bydd posibl cael cyfarfod yn y neuadd. Gwneud penderfyniad am hyn yn nes i'r dyddiad.

DR angen paentio giatau mynwent Llangernyw. Hen baent wedi rhydu a chodi i ffwrdd o'r metal. Angen tynnu'r hen baent i ffwrdd ac ei ail baetio. Nodi fod hyn yn beryglus rhagofn i rywun frifo. Angen cael dau bris i wneud y gwaith yma. Gofyn i Barry yn Llangernyw a Dan Cousins, Llanrwst. DR i gael manylion Barry a'u ebostio i CR, CR i wneud ymholiadau.

EW wedi archebu sgipiau: 10^{fed} Mehefin yn Gwytherin a 11^{eg} Mehefin yn Pandy Tudur. Rhoi nodyn yn y Gadlas, hysbys yn yr hysbysfyrdau a mewn grwpiau *WhatsApp* yn y ddau bentref.

Ffens sydd o amgylch parc Gwytherin wedi malu. Gofyn os oedd modd hysbysu'r Cyngor drwy Report It. Am gysylltu efo GLL os yn methu gwneud hyn.

11 CYFARFOD NESAF

26^{ain} Mai 2021 (Cyfarfod Blynyddol Rhithiol)

Cyfarfod yn dod i ben 8:20yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan